

## Cerdyn Gwybodaeth Epidiwral

### Cerdyn Gwybodaeth Epidiwral

Dyma grynodedb. Mae mwy o wybodaeth yn yr adran [Lleddfu Poen yn ystod Genedigaeth](#). Trafodwch unrhyw beth nad yw'n glir gyda'ch anesthetydd.

#### Gweithredu'r epidiwral

- Bydd angen i chi gael caniwla mewnwythiennol ac efallai drip.
- Wrth i'r pigiad epidiwral gael ei roi, mae'n bwysig eich bod yn cadw'n llonydd a rhoi gwybod i'r anesthetydd os ydych yn cael cyfangiad.
- Fel arfer mae'n cymryd 20 munud i'w weithredu ac 20 munud i weithio.
- Nid yw ambell bigiad epidiwral yn gweithio'n llawn ac mae angen eu haddasu neu roi un newydd.

#### Manteision epidiwral

- Fel arfer mae'n lleddfu poen yn rhagorol.
- Weithiau rhoddir anesthetig asgwrn cefn yn gyntaf i gael effaith gyflymach.
- Weithiau gellir newid y dos neu'r math o anesthetig lleol i'ch galluogi i symud o gwmpas y gwely. Mae hyn yn ddos isel (neu symudol) o epidiwral.
- Yn gyffredinol, nid yw epidiwral yn effeithio ar eich babi.
- Gellir ychwanegu at y dos ar gyfer toriad cesaraidd os oes angen.

#### Problemau posib gyda'ch epidiwral.

- Gall ychwanegiadau ailadroddus ag anesthetig lleol cryfach achosi gwendid dros dro yn y coesau a chynyddu'r risg o enedigaeth gyda gefeiliau neu sugndynydd.
- Gall yr epidiwral arafu ychydig ar ail gam y cyfnod geni.
- Efallai y byddwch yn datblygu pwysedd gwaed isel, cosi neu dwymyn yn ystod effaith yr epidiwral.
- Gall man rhoi'r epidiwral fod yn ddolurus ond fel arfer dim ond am ychydig ddyddiau. NID yw poen cefn yn cael ei achosi gan epidiwral ond mae'n gyffredin ar ôl unrhyw feichiogrwydd.

**Risg o gael epidwral neu anesthetig asgwrn cefn i leihau poen esgor**

Math o risg	Pa mor aml mae hyn yn digwydd?	Pa mor gyffredin ydyw?
Gostyngiad sylweddol mewn pwysedd gwaed	Un ym mhob 50 dynes	Achlysurol
Ddim yn gweithio'n ddigon da i leihau poen geni felly mae angen i chi ddefnyddio ffyrdd eraill i leddfu'r boen	Un ym mhob 8 dynes	Cyffredin
Ddim yn gweithio'n ddigon da ar gyfer toriad cesaraidd felly mae angen i chi gael anesthetig cyffredinol	Un ym mhob 20 dynes	Weithiau
Cur pen	Un ym mhob 100 dynes (epidwral)	Anghyffredin
	Un ym mhob 100-200 dynes. (anesthetig asgwrn cefn)*	
Niwed i'r nerfau (man dideimlad ar goes neu droed, neu fod â choes wan)	Dros dro - un ym mhob 1,000 dynes	Prin
Effeithiau sy'n para am fwy na 6 mis Parhaol - un ym mhob		Prin
	13,000 dynes	

Crawniad epidwral (haint)

Un ym mhob 50,000 dynes

Prin iawn

Llid yr ymennydd

Un ym mhob 100,000 dynes

Prin iawn

Hematoma epidwrol (clot gwaed)

Un ym mhob 170,000 dynes

Prin iawn


Anaf difrifol, gan gynnwys cael eich parlysu

Un ym mhob 250,000 dynes Hynod o brin

\*Yn amodol ar amrywiad uned unigol

Nid yw'r wybodaeth sydd ar gael o'r dogfennau cyhoeddus yn rhoi ffigurau cywir ar gyfer yr holl risgiau hyn. Mae'r ffigurau a ddangosir uchod yn amcangyfrifon a gallant fod yn wahanol mewn gwahanol ysbytai.

Rhifyn Mawrth 2021



Sganiwch y cod QR isod i agor y dudalen hon ar ffôn symudol neu ddyfais glyfar.